



Sut i Fodloni Gofynion Hyfforddiant a Dysgu Ôl-gofrestru (HDOG/ PRTL)

Canllaw ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol proffesiynol sydd wedi eu cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru

Cynnwys

Cyflwyniad	2
Diben HDOG (PRTL)	2
Faint o HDOG (PRTL) sydd ei angen?	2
Pa gofnodion y mae angen i mi eu cadw?	3
Pa weithgareddau sy' n cyfrif fel HDOG (PRTL)?	4
Beth yw cyfrifoldeb fy nghyflogwr?	5
Arweiniad ar gyfer gweithwyr hunangyflogedig ac annibynnol	5
Arweinwyr ar gyfer gweithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso	6
Arweiniad ar gyfer gweithwyr asiantaeth	6
Gweithwyr rhan-amser	6
Pobl sydd wedi cofrestru nad ydynt yn ymarfer ar hyn o bryd	7
Pwyntiau allweddol i'w cofio	7
Adnoddau ychwanegol	8



Cyflwyniad

Mae Rheolau (Cofrestru) Gofal Cymdeithasol Cymru yn nodi'r gofynion hyfforddiant a dysgu ôl-gofrestru (HDOG) y mae'n rhaid i bob gweithiwr gofal cymdeithasol proffesiynol eu bodloni er mwyn sicrhau eu haddasrwydd parhaus ar gyfer cofrestru. Bwriad y canllaw hwn yw eich helpu chi, fel gweithiwr gofal cymdeithasol proffesiynol, i ddeall y gofynion HDOG a'u cyflawni. Mae'r canllaw hwn ar gyfer yr holl weithwyr gofal cymdeithasol proffesiynol sydd wedi eu cofrestru gyda ni:

- gweithwyr cymdeithasol
- rheolwyr a gweithwyr gofal preswyl i blant
- rheolwyr cartrefi gofal oedolion
- rheolwyr gofal yn y cartref

Diben HDOG

Mae Adran 6 y *Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gofal Cymdeithasol* yn gofyn i chi "fod yn atebol am ansawdd eich gwaith a chymryd cyfrifoldeb am gynnal a datblygu gwybodaeth a sgiliau... mae hyn yn cynnwys ymgymryd â dysgu a datblygiad perthnasol i gynnal a gwella eich gwybodaeth a'ch sgiliau i sicrhau eich bod yn addas i ymarfer...".

Felly, mae HDOG yn ofynnol i chi gyflawni eich rhwymedigaethau i'r Cod Ymarfer Proffesiynol.

Faint o HDOG sydd ei angen?

Mae ein Rheolau yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl weithwyr gofal cymdeithasol proffesiynol gynnal cofnod cyflawniad o'r 15 diwrnod neu'r 90 awr o HDOG

m mhob cyfnod cofrestru o dair blynedd. Rhaid i chi hefyd gadw portffolio tystiolaeth o'ch dysgu oherwydd efallai y bydd angen hwn at ddibenion archwilio.

Nid oes yn rhaid i'r cyfnod gynnwys 15 diwrnod llawn; gall gynnwys llawer o gyfnodau byr o hyfforddiant a dysgu. Mae un diwrnod yn gyfwerth â chwe awr.

Dylid trin y gofyniad o 15 diwrnod neu 90 awr fel isafswm. Mae eich cofnod cyflawniad HDOG yn ffurfio rhan o'ch cais i adnewyddu cofrestriad tuag at ddiwedd pob cyfnod cofrestru o dair blynedd. Dylai eich rhestr o 15 diwrnod neu 90 awr o HDOG fod o fewn dyddiadau pob cyfnod cofrestru o dair blynedd.



Pa gofnodion y mae angen i mi eu cadw?

Mae ein Rheolau Cofrestru yn ei gwneud yn ofynnol i bob gweithiwr gofal cymdeithasol proffesiynol sydd wedi ei gofrestru gyda ni i gadw cofnod o'r HDOG a wnaed.

Dylech gynnal cofnod HDOG fel cofnod cyflawniad ar-lein yn [GCCGarlein](https://www.mycarecouncil.org.uk/cy-gb/hafan.aspx)<https://www.mycarecouncil.org.uk/cy-gb/hafan.aspx>. Gellir cyflwyno fformatau eraill i ni gyda'ch cais adnewyddu. Rhaid iddo gynnwys y cyfnod y cwblhawyd yr hyfforddiant neu'r dysgu a'i hyd. Trwy ychwanegu HDOG trwy eich cyfrif [GCCGarlein](https://www.mycarecouncil.org.uk/cy-gb/hafan.aspx) byddwch yn cael eich sicrhau eich bod yn rhoi'r wybodaeth gywir i ni i ddangos eich bod yn addas i ymarfer a bydd y broses adnewyddu yn gyflymach. Gallwch ychwanegu HDOG unrhyw bryd ac nid oes rhaid i chi aros tan ddiwedd eich cyfnod adnewyddu.

Rhaid i'r cofnod adlewyrchu'r ffyrdd y mae dysgu wedi llywio eich arfer. Mae hyn yn golygu, ar gyfer pob cofnod rydych yn ei gofrestru, bod angen i chi gynnwys sut mae'r dysgu wedi cyfrannu at eich ymarfer.

Dylech drafod yr angen i gofnodi HDOG yn briodol gyda'ch cyflogwr. Bydd cynnwys rheolwyr trwy gydol y cyfnod cofrestru yn ei gwneud yn haws iddynt wirio'r cofnod HDOG adeg adnewyddu'r cofrestriad.

Dylech gynnal portffolio tystiolaeth i gefnogi eich cofnod HDOG. Gallai'r dystiolaeth yn y portffolio gynnwys tystysgrifau cymhwyster, tystysgrifau mynychu hyfforddiant, er enghraifft, neu gynodeb bras o ganlyniadau'r dysgu a sut y sicrhawyd hyn. Byddem hefyd yn derbyn cadarnhad/agendâu trwy'r e-bost o gynadleddau/fforymau neu ddogfennau, os nad oes gennych unrhyw ddogfennau eraill. Gallwn ofyn i chi gyflwyno'r portffolio fel rhan o'ch cais i adnewyddu cofrestriad: byddwn yn archwilio canran (sampl) o bobl sydd wedi cofrestru ac edrych yn fanwl ar eu tystiolaeth ar gyfer HDOG. Dylai pobl sydd wedi cofrestru heb gyflogwr gynnal rhestr o'u HDOG a phortffolio tystiolaeth, a phan fydd angen (adeg adnewyddu os cânt eu cynnwys yn yr archwiliad HDOG adeg adnewyddu), dangos y rhain i'ch ardystiwr er mwyn iddo allu gwirio hynny, hyd eithaf ei wybodaeth, eich bod wedi cwblhau'r gweithgareddau a restrwyd gennych. Mae'r unigolion sy'n gallu ardystio eich adnewyddiad wedi eu nodi yn y [Canllawiau Gwirio a Chymeradwyo Ceisiadau](#).



Pa weithgareddau sy'n cyfrif fel HDOG?

Mae ein Rheolau Cofrestru yn datgan y gellir bodloni'r HDOG gofynnol trwy "astudio, cyrsiau hyfforddi, seminarau, darllen, addysgu neu weithgareddau eraill y gellid disgwyl yn rhesymol y byddant yn ychwanegu at ddatblygiad proffesiynol y gweithiwr gofal cymdeithasol, neu'n cyfrannu at ddatblygiad y proffesiwn yn gyffredinol".

Felly, mae llawer o ffyrdd i barhau i ddysgu a datblygu fel gweithiwr gofal cymdeithasol proffesiynol ac mae'r canllaw hwn wedi osgoi bod yn rhy benodol yn fwriadol am y math o weithgareddau a fydd yn bodloni ein gofynion.

Dylai'r hyfforddiant a'r dysgu yr ydych yn eu dewis;

- wella eich gallu i ddarparu gwasanaethau o ansawdd da iawn i unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau a gofalwyr;
- bod o fudd i'ch anghenion datblygiad personol a'ch datblygiad gyrfa;
- bod o fudd i'ch swydd bresennol;
- helpu i chi ddilyn hynt a helynt newidiadau mewn deddfwriaeth, polisi, ymchwil ac ymarfer;
- cynnwys unrhyw hyfforddiant gorfodol neu addysg a dysgu proffesiynol parhaus sy'n ofynnol ohonoch;
- gwneud y gorau o'r cyfleoedd dysgu sydd ar gael i ffurfio rhan o'ch datblygiad proffesiynol ehangach.

Mae enghreifftiau o weithgareddau dysgu y gallech eu cynnwys wedi eu rhestru isod;

- cwblhau cymhwyster neu gwrs achrededig perthnasol;
- asesu eich cymhwysedd;
- ymgymryd â Dyfarniad Dysgu ac Addysg Proffesiynol Parhaus (DAPP);
- mynychu hyfforddiant mewn swydd, gweithdai, seminarau neu gynadleddau gan fyfyrio ar eich dysgu;
- cwblhau modiwl e-ddysgu sy'n berthnasol i ymarfer;
- mynychu fforwm neu grŵp rhwydweithio proffesiynol gyda thystiolaeth o ddysgu (nid yw mynychu heb dystiolaeth glir o ddysgu yn ddigonol);
- cysgodi gwaith cydweithiwr mewn tîm, gwasanaeth neu broffesiwn cysylltiedig;
- ymgymryd â gwaith ymchwil neu ddarllen strwythuredig sy'n gysylltiedig â'ch ymarfer, gyda thystiolaeth o ddysgu;
- rhoi cyflwyniad neu arwain trafodaeth ar destun newydd rydych wedi ymchwilio iddo (gan felly roi dystiolaeth o'ch dysgu);
- cwblhau secondiad mewn maes newydd neu faes cysylltiedig perthnasol;
- gwirfoddoli i weithio mewn gwasanaeth newydd, gyda thystiolaeth o ddysgu;
- ymgymryd â chyfrifoldebau newydd neu wahanol gyda thystiolaeth o ddysgu.

Dylech anelu at amrywiaeth a chydbwysedd o ran gwahanol weithgareddau dysgu. Ni fyddai'n dderbyniol, er enghraifft, i ddarllen strwythuredig gyfrif am eich holl HDOG. Cofiwch gofnodi ar eich cofnod HDOG sut mae pob gweithgaredd wedi cyfrannu at eich ymarfer. Ni fyddai gweithgareddau rheolaidd, fel goruchwylio neu gyfarfodydd tîm, fel arfer yn cyfrif fel HDOG.



Beth yw cyfrifoldeb fy nghyflogwr?

Er mai chi sy'n bersonol gyfrifol am sicrhau eich bod yn bodloni'r gofynion HDOG, mae gan eich cyflogwr gyfrifoldeb i roi cymorth gweithredol i chi. Mae hyn yn cynnwys:

- cefnogi diwylliant dysgu yn y gweithle lle byddwch yn cael cyfle i gael mynediad at ymarfer gorau, ei drafod, myfyrio arno a'i rannu;
- sicrhau bod cyfleoedd ymsefydlu, hyfforddiant a dysgu sy'n eich cynorthwyo;
- darparu goruchwyliaeth a gwerthusiad;
- rhoi adborth adeiladol ar eich perfformiad a'ch datblygiad.

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn disgwyl bod y HDOG rydych yn ymgymryd ag ef yn gyson â'ch rôl gofrestredig a nodau ac amcanion eich cyflogwr a'ch gwasanaeth. Mae'n bwysig eich bod chi a'ch cyflogwr yn trafod a chynllunio sut y byddwch yn bodloni'r gofynion.

Arweiniad ar gyfer gweithwyr hunangyflogedig ac annibynnol

Yn yr un modd â'r holl weithwyr gofal cymdeithasol proffesiynol, mae angen i reolwyr a gweithwyr hunangyflogedig ac annibynnol fodloni ni adeg adnewyddu cofrestriad (neu os yw wedi ei gynnwys yn yr archwiliad HDOG adeg yr adnewyddu) eich bod wedi cwblhau'r gofynion HDOG.

Dylai'r gweithgareddau hyfforddiant a dysgu y mae gweithwyr cymdeithasol hunangyflogedig ac annibynnol a rheolwyr-berchnogion gofal cymdeithasol yn ymgymryd â nhw wella eich meysydd arbenigedd a chefnogi eich gwaith, yn yr un modd ag y dylai ar gyfer y rheiny sy'n gweithio i gyflogwr. Rhaid i reolwyr hunangyflogedig ddangos eu portffolio tystiolaeth yn ogystal â'u rhestr o weithgareddau HDOG i'w hardystiwr. Pan fydd yn ofynnol i chi gyflwyno HDOG ar gyfer adnewyddu neu'n cael eu dewis ar gyfer archwiliad, gellir naill ai ardystio eich rhestr o weithgareddau HDOG neu gallwch gyflwyno portffolio tystiolaeth nad oes modd ei ddychwelyd at ein Tîm Cofrestru.

Arweiniad ar gyfer gweithwyr cymdeithasol sydd newydd gymhwyso

Dylai gweithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso wneud cais i gofrestru fel gweithiwr cymdeithasol cymwys wrth iddynt gwblhau eu cwrs. Mae'n ofynnol i'r holl weithwyr cymdeithasol sy'n cymhwyso ar ôl 1 Ebrill 2016 sy'n gweithio mewn swyddi sy'n cynnwys ymgymryd â thasgau gwaith cymdeithasol gwblhau'r Rhaglen Atgyfnerthu yn ystod y cyfnod tair blynedd gyntaf y maent wedi eu cofrestru gyda ni fel gweithiwr cymdeithasol. Bydd adnewyddu cofrestriad, yn rhannol, yn ddibynnol ar hyn. Y Rhaglen Atgyfnerthu yw rhan gyntaf y Fframwaith Dysgu ac Addysg Proffesiynol Parhaus (DAPP). Mae'n adeiladu ar y cyfnod pontio i gyflogaeth ac mae'n bwysig o ran sefydlu diwylliant o ddysgu a datblygiad trwy gydol gyrfa ar gyfer y proffesiwn gwaith cymdeithasol. Gellir defnyddio ymgymryd â'r Rhaglen Atgyfnerthu fel tystiolaeth o HDOG.



Arweiniad ar gyfer gweithwyr asiantaeth

Rhaid i gofrestryddion sy'n gweithio i asiantaeth fod yn ymwybodol mai gofyniad i adnewyddu cofrestriad yw HDOG.

Mae'r asiantaeth gyflogi a chomisiynydd y gwasanaeth neu'r cyflogwr lle rydych yn gweithio yn rhannu cyfrifoldeb am wneud yn siŵr bod gweithwyr yn addas a chymwys i ymarfer. Rhaid darparu cyfleoedd i'ch cefnogi i fodloni eich gofynion hyfforddiant a dysgu a HDOG. Dylai cyfrifoldeb am oruchwylio a chynorthwyo gael ei amlinellu'n glir a bydd fel arfer yn cael ei ddarparu gan y rheolwr llinell neu'r rheolwr goruchwylio y mae'r gweithiwr asiantaeth wedi cael ei neilltuo iddo.

Gweithwyr rhan-amser

Mae nod y HDOG yr un fath ar gyfer pob cofrestrydd, ni waeth faint o oriau rydych yn gweithio. Dylai cyflogwyr roi'r un cyfleoedd a chymorth i weithwyr rhan-amser i fodloni'r gofynion HDOG fel categorïau eraill o weithwyr (15 diwrnod neu 90 awr dros y cyfnod cofrestru tair blynedd).

Cofrestryddion nad ydynt yn ymarfer ar hyn o bryd

Gallai rhai cofrestryddion fod yn bryderus ynghylch bodloni'r gofynion HDOG oherwydd seibiannau o'r gwaith, fel seibiannau gyrfa, absenoldeb mamolaeth, salwch neu ddiweithdra. Fodd bynnag, gall dysgu ddeillio o ffynonellau amrywiol (gweler '[Pa weithgareddau sy'n cyfrif fel HDOG?](#)' uchod). Cyhyd ag y bo'r gweithgareddau yn cael eu cofnodi a'r dysgu'n cael ei gofnodi'n glir, bydd y rhain fel arfer yn dderbyniol. Mae llawer o bobl sy'n mynd yn ôl i'r gwaith ar ôl absenoldebau hir yn cwblhau dysgu neu gyfnod ymsefydlu i'w helpu i fynd yn ôl i'r gwaith. Mae pob un o'r rhain yn weithgareddau HDOG posibl. Os ydych chi'n pryderu ynglŷn â bodloni'r gofyniad HDOG, dylech gysylltu â'r [Thîm Cofrestru](#) cyn gynted ag y bo modd i gael cyngor.

Sylwer bod rhaid i bob person cofrestredig gadarnhau eu bod yn bwriadu ymarfer gofal cymdeithasol yng Nghymru yn ystod eu cyfnod cofrestru er mwyn aros ar y gofrestr.



Pwyntiau allweddol i'w cofio

- HDOG yw eich cyfrifoldeb chi fel cofrestrydd.
- Nid oes angen i HDOG fod yn dasg anodd a beichus.
- Dylai HDOG fod yn ganlyniad dysgu a datblygiad a gyflawnwyd, yr ydych chi a'ch cyflogwr yn ei gydnabod.
- Mae HDOG yn rhoi hyder i unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau, cydweithwyr a chyflogwyr eraill fod gweithwyr yn gymwys i aros ar y Gofrestr.
- Mae HDOG yn broses hyblyg i gydnabod cyflawniad unigol a helpu i godi safonau.
- Gellir ychwanegu HDOG ar unrhyw adeg ar-lein yn eich cyfrif [GCCGarlein](#)

Adnoddau ychwanegol

[*Pecyn Cymorth Datblygiad Proffesiynol Parhaus ar gyfer Rheolwyr a Gweithwyr Gofal Cymdeithasol, y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant*](#)

[Hanfodion Cofrestru](#)

[Canllawiau ymarfer i reolwyr](#)

[Y Parth Dysgu](#)

[Gwefan iechyd a gofal cymdeithasol Llywodraeth Cymru](#)

[Cod Ymarfer Proffesiynol](#)